Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 24 Mai 2023 |
| **TEITL** | **Cyfrifon Terfynol GwE 2022/23 – Alldro Refeniw** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol terfynol cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2022/23.<br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **AWDUR** | Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd. |

## 1. PENDERFYNIAD

**Gofynnir i'r Cydbwyllgor:**

1.1 **Nodi a derbyn Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw Cydbwyllgor GwE am 2022/23**.

1.2 Gymeradwyo trosglwyddiad ariannol o gronfa wrth gefn GwE i ariannu gorwariant o £138,871 yn 2022/23, ar ôl ystyried y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant.

1.3 Gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2022/23 fydd yn sail i'r datganiadau ariannol statudol GwE am y flwyddyn sydd i'w cynhyrchu, eu hardystio a'u cyhoeddi gan Adran Gyllid yr awdurdod lletya cyn y dyddiad statudol o 31 Mai.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw Cydbwyllgor GwE am 2022/23 yn ymddangos yn Atodiad 1.

2.2 Adroddir ar sefyllfa derfynol o orwariant net o £138,871 yn erbyn y gyllideb, sydd bennaf yn sgil blaenoriaethu cynlluniau angenrheidiol penodol.

2.3 Ar ddiwedd chwarter 3, amcangyfrifwyd byddai tanwariant o (£27,423). Mae hyn yn golygu fod symudiad o £166,294 wedi ei weld i'r hyn a ragwelwyd ar ddiwedd chwarter 3.

2.4 Mae Rhan 3 isod yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

## 3. AMRYWIADAU ARIANNOL

3.1 **Gweithwyr:**

**Sefyllfa Terfynol: Tanwariant (£23,430)** *Chwarter 3: Gorwariant £12,711*

Adroddir ar sefyllfa o danwariant bychan yn bennaf oherwydd trosiant staff, gan gynnwys staff ar secondiad i gynlluniau sy'n cael eu hariannu drwy grantiau. O ystyried fod y gyllideb werth £3.4m net, mae'r tanwariant felly yn agos iawn i'r gyllideb.

3.2 **Adeilad:**

**Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £46,252** *Chwarter 3: Gorwariant £23,787*

Mae gan GwE gyllideb ar gyfer incwm rhent gan ysgolion, awdurdodau lleol a defnydd mewnol o gynlluniau sy'n cael eu hariannu drwy grantiau, am ddefnydd o adeiladau GwE. Bu i'r digwyddiadau ail-gychwyn ym mis Medi 2022, ac felly fe ragwelwyd y byddai'r ffrwd incwm yma yn gwella yn ystod y flwyddyn. Er hynny, adroddwyd yn Chwarter 3 y byddai diffyg incwm ar gyfer y cyfnod Ebrill i Awst yn arwain at orwariant. Yn anffodus, roedd y defnydd ac felly'r incwm a ddenwyd yn llai na'r disgwyl. Erbyn diwedd y flwyddyn mi fydd y pennawd yma felly yn cael ei adolygu i asesu ei briodoldeb bellach yn y byd gwaith newydd ers yr argyfwng Covid.

3.3 **Cludiant:**

**Sefyllfa Terfynol: Tanwariant (£49,202)** *Chwarter 3: Tanwariant (£54,046)*

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 3. Ar ôl eu hatal yn ystod yr argyfwng Covid, fe wnaeth ymweliadau ag ysgolion ailgychwyn yn ystod y flwyddyn. Fe ragwelir blwyddyn lawn o deithio ac ymweliadau ag ysgolion heb eu tarfu yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24. Er hynny, mae ffyrdd newydd o weithio yn gyffredinol wedi arwain at fwy o gyfarfodydd rhithiol, ac felly llai o

deithio. Nid oes disgwyl y bydd y tanwariant yn parhau i'r un lefel yn 2023/24, a bydd y sefyllfa yn agosau at sefyllfa gytbwys.

3.4 **Prosiectau Penodol:**
**Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £206,122** *Chwarter 3: Gorwariant £540*
Mae'r gwasanaeth yn fwriadol wedi blaenoriaethu cynlluniau angenrheidiol yn ystod y flwyddyn er mwyn rhoi cefnogaeth i ysgolion. Mae'r gorwariant yn y pennawd yma yn cael ei ariannu drwy danwariant ar benawdau eraill fel nodir uchod, yn ogystal â'r defnydd o'r gronfa wrth gefn.

## 4. CRONFA TANWARIANT

4.1 Cyfanswm y gronfa ('balansau cyffredinol' GwE) ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2022/23 oedd (£437,503).

4.2 Mae'r gorwariant net o £138,871 i'w ariannu o gronfa wrth gefn, felly balans terfynol y gronfa ar ddiwedd 2022/23 yw (£298,632).

**ATODIADAU**
Atodiad 1: Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2022/23.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

### Y Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad